O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2016 Rhif 52 (Cy. 22) (C. 4)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

# Gorchymyn Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol) 2016

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Y Gorchymyn hwn yw'r trydydd gorchymyn cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 ("Deddf 2015").

Mae erthygl 2 yn dwyn yr adrannau a ganlyn o Ddeddf 2015 i rym ar 1 Mawrth 2016:

- adran 17 (gofyniad i gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio);
- adran 18 (gofyniad i ddarparu gwasanaethau cyn ymgeisio);
- adran 19 (datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol: ceisiadau am ganiatâd cynllunio);
- adran 20 (datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol: cydsyniadau eilaidd);
- adran 21 (datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol: adroddiadau effaith lleol);
- adran 22 (yr amserlen ar gyfer penderfynu ceisiadau); ac
- adran 49 (costau ceisiadau, apelau a chyfeiriadau).

Mae erthygl 3 yn dwyn y darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2015 i rym ar 1 Mawrth 2016 i'r graddau y maent yn ymwneud â datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol a chydsyniadau eilaidd:

- adran 24 (darpariaeth bellach ynghylch ceisiadau a wneir i Weinidogion Cymru);
- adran 25 (pŵer i wneud darpariaeth drwy orchymyn datblygu mewn cysylltiad â cheisiadau i Weinidogion Cymru);

— adran 26 (datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol a cheisiadau a wneir i Weinidogion Cymru: arfer swyddogaethau gan berson penodedig);
— adran 27 (ceisiadau i Weinidogion Cymru: diwygiadau pellach);
— adran 33 (hysbysiadau penderfynu);
— adran 34 (hysbysiad am ddatblygiad);
— adran 50 (y weithdrefn ar gyfer achosion penodol);
— Atodlen 3 (datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol a cheisiadau a wneir i Weinidogion Cymru: arfer swyddogaethau gan berson penodedig); ac
— Atodlen 4 (ceisiadau i Weinidogion Cymru: diwygiadau pellach).

Mae erthygl 4 yn dwyn adran 51 o Ddeddf 2015 (costau a'r weithdrefn wrth apelio etc: diwygiadau pellach) i rym ar 1 Mawrth 2016 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r paragraffau hynny o Atodlen 5 (costau a'r weithdrefn wrth apelio etc: diwygiadau pellach) a restrir yn yr erthygl honno.

Mae erthygl 5 yn dwyn yr adrannau a ganlyn o Ddeddf 2015 i rym ar 16 Mawrth 2016:
— adran 28 (pŵer awdurdod cynllunio lleol i'w gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei rhoi gyda chais);
— adran 29 (ceisiadau annilys: hysbysu ac apelio);
— adran 30 (dirymu arbed Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ceisiadau) 1988);
— adran 32 (pŵer i wrthod penderfynu ar ôl-gais);
— adran 33 (hysbysiadau penderfynu);
— adran 34 (hysbysiad am ddatblygiad);
— adran 35 (cyfnod para caniatâd cynllunio: cyffredinol);
— adran 36 (cyfnod para caniatâd cynllunio amlinellol);
— adran 37 (ymgynghori etc mewn cysylltiad â cheisiadau penodol sy'n ymwneud â chaniatâd cynllunio);
— adran 38 (cau neu wyro llwybrau cyhoeddus pan wneir cais am ganiatâd cynllunio);
— adran 43 (torri rheolaeth gynllunio: hysbysiad rhybudd gorfodi);
— adran 44 (apelio yn erbyn hysbysiad gorfodi: cais tybiedig am ganiatâd cynllunio);
— adran 45 (cyfyngiadau ar hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau cynllunio); ac

— adran 46 (cyfyngiadau ar hawl i apelio yn erbyn hysbysiad gorfodi).

Mae erthyglau 6 i 17 yn cynnwys darpariaethau trosiannol.

**NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2015 wedi eu dwyn i rym gan Orchmynion Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Y ddarpariaeth* | *Y dyddiad cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 2 | 1 Ebrill 2016 | O.S. 2015/1987 (Cy. 297) (C. 123) |
| Adran 3 (i'r graddau y mae'n rhoi adrannau newydd 60, 60A a 60B yn lle adran 60 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ) | 4 Ionawr 2016 | O.S. 2015/1987 (Cy. 297) (C. 123) |
| Adran 4 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym) | 5 Hydref 2015 | O.S. 2015/1736 (Cy. 237) (C. 106) |
| Adrannau 11 i 14 (i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym) | 4 Ionawr 2016 | O.S. 2015/1987 (Cy. 297) (C. 123) |
| Adran 15(1) a (2) (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym) | 16 Mawrth 2016 | O.S. 2015/1987 (Cy. 297) (C. 123) |
| Adran 15(3) | 1 Ebrill 2016 | O.S. 2015/1987 (Cy. 297) (C. 123) |
| Adran 31 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym) | 4 Ionawr 2016 | O.S. 2015/1987 (Cy. 297) (C. 123) |
| Adrannau 40 i 42 (i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym) | 16 Mawrth 2016 | O.S. 2015/1987 (Cy. 297) (C. 123) |
| Rhan 1 o Atodlen 1 (i'r graddau nad yw eisoes mewn | 5 Hydref 2015 | O.S. 2015/1736 (Cy. 237) (C. 106) |

| | | |
|---|---|---|
| grym) | | |

*Gweler* adran 58(1) o Ddeddf 2015 ar gyfer y darpariaethau a ddaeth i rym ar y diwrnod pan gafodd Deddf 2015 y Cydsyniad Brenhinol ac adran 58(2) ar gyfer y darpariaethau a ddaeth i rym 2 fis ar ôl i Ddeddf 2015 gael y Cydsyniad Brenhinol.

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2016 Rhif 52 (Cy. 22) (C. 4)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol) 2016

*Gwnaed* *27 Ionawr 2016*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 58(4) o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015(**1**).

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol) 2016.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Deddf 1990" ("*the 1990 Act*") yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**2**);

ystyr "Deddf 2015" ("*the 2015 Act*") yw Deddf Cynllunio (Cymru) 2015.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Mawrth 2016**

**2.** Y diwrnod penodedig i'r adrannau a ganlyn o Ddeddf 2015 ddod i rym i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym yw 1 Mawrth 2016—

(a) adrannau 17 i 22; a

(b) adran 49.

**3.** Y diwrnod penodedig i'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2015 ddod i rym i'r graddau y maent yn ymwneud â datblygiadau o arwyddocâd

(**1**) 2015 dccc 4.
(**2**) 1990 p. 8.

cenedlaethol([1]) a chydsyniadau eilaidd([2]) yw 1 Mawrth 2016—

(a) adrannau 24 i 27;

(b) adrannau 33 a 34;

(c) adran 50;

(d) Atodlen 3; ac

(e) Atodlen 4.

**4.** Y diwrnod penodedig i adran 51 o Ddeddf 2015 ddod i rym i'r graddau y mae'n ymwneud â'r paragraffau a ganlyn o Atodlen 5 i Ddeddf 2015 yw 1 Mawrth 2016—

(a) paragraffau 1 i 14;

(b) paragraff 16(1) i'r graddau y mae'n ymwneud ag is-baragraff (2), ac is-baragraff (2);

(c) paragraff 18 i'r graddau y mae'n ymwneud â pharagraff 5(4) o Atodlen 8 i Ddeddf 1990;

(d) paragraff 19 i'r graddau y mae'n ymwneud â pharagraff 20, a pharagraff 21(1), (2)(a) a (b);

(e) paragraff 20;

(f) paragraff 21(1) i'r graddau y mae'n ymwneud ag is-baragraff (2)(a) a (b), ac is-baragraff (2)(a) a (b);

(g) paragraff 22;

(h) paragraff 23 i'r graddau y mae'n ymwneud â pharagraffau 24, 25(1), 25(2)(a) a (b), a 26;

(i) paragraff 24;

(j) paragraff 25(1), (2)(a) a (b); a

(k) paragraff 26.

### Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 16 Mawrth 2016

**5.** Y diwrnod penodedig i'r adrannau a ganlyn o Ddeddf 2015 ddod i rym i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym yw 16 Mawrth 2016—

(a) adrannau 28 i 30;

(b) adrannau 32 i 38; ac

(c) adrannau 43 i 46.

### Darpariaethau trosiannol

**6.** Nid yw'r diwygiadau i Ddeddf 1990 a wneir gan adran 17 o Ddeddf 2015 yn gymwys i gais am ganiatâd

---

(**1**) I gael ystyr "development of national significance" ("datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol") *gweler* adran 62D(3) a (4) o Ddeddf 1990 a Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) 2016 (O.S. 2016/53 (Cy.23)).

(**2**) I gael ystyr "secondary consent" ("cydsyniad eilaidd") *gweler* adran 62H(1) o Ddeddf 1990.

cynllunio ar gyfer datblygiad mawr(**1**) a wneir cyn 1 Awst 2016.

**7.** Nid yw'r diwygiadau i Ddeddf 1990 a wneir gan adran 19 o Ddeddf 2015 yn gymwys i gais am ganiatâd cynllunio a wneir cyn 1 Mawrth 2016.

**8.** Nid yw'r diwygiad i Ddeddf 1990 a wneir gan adran 28 o Ddeddf 2015 yn gymwys i gais am ganiatâd cynllunio a wneir cyn 16 Mawrth 2016.

**9.** Nid yw'r diwygiadau i Ddeddf 1990 a wneir gan adran 29(1) a (2) o Ddeddf 2015 yn gymwys i gais am ganiatâd cynllunio, cydsyniad, cytundeb neu gymeradwyaeth a wneir cyn 16 Mawrth 2016.

**10.** Nid yw'r diwygiadau i Ddeddf 1990 a wneir gan adran 29(1) a (3) o Ddeddf 2015 yn gymwys i apêl sy'n ymwneud â chais a wneir cyn 16 Mawrth 2016.

**11.** Nid yw'r diwygiad i Ddeddf 1990 a wneir gan adran 32 o Ddeddf 2015 yn gymwys pan fo, cyn 16 Mawrth 2016,—

(a) hysbysiad gorfodi wedi ei ddyroddi o dan adran 172 o Ddeddf 1990 ac nad yw wedi ei dynnu yn ôl o dan adran 173A o'r Ddeddf honno; a

(b) naill ai un neu'r ddau o'r is-baragraffau a ganlyn yn gymwys—

 (i) bod apêl o dan adran 174 o Ddeddf 1990 wedi ei gwneud yn erbyn yr hysbysiad hwnnw;

 (ii) bod cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad y mae'r hysbysiad gorfodi hwnnw'n ymwneud ag ef yn cael ei wneud ar ôl y dyddiad y dyroddwyd yr hysbysiad hwnnw a chyn 16 Mawrth 2016.

**12.** Nid yw'r diwygiadau i Ddeddf 1990 a wneir gan adrannau 33 a 34 o Ddeddf 2015 yn gymwys i ganiatâd cynllunio a roddir cyn 16 Mawrth 2016.

**13.** Nid yw'r diwygiadau i Ddeddf 1990 a wneir gan adrannau 35 a 36 o Ddeddf 2015 yn gymwys i gais a wneir o dan adran 73 o Ddeddf 1990 cyn 16 Mawrth 2016.

**14.** Nid yw'r diwygiadau i Ddeddf 1990 a wneir gan adrannau 44 a 46 o Ddeddf 2015 yn gymwys pan fo, cyn 16 Mawrth 2016, hysbysiad gorfodi yn cael ei ddyroddi o dan adran 172 o Ddeddf 1990 ac nad yw'n cael ei dynnu yn ôl o dan adran 173A o'r Ddeddf honno.

---

(**1**) I gael ystyr "datblygiad mawr" *gweler* erthygl 2(1) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (O.S. 2012/801) (Cy. 110).

**15.** Nid yw'r diwygiad i Ddeddf 1990 a wneir gan adran 45 o Ddeddf 2015 yn gymwys i apêl a wneir o dan adran 78 o Ddeddf 1990 cyn 16 Mawrth 2016.

**16.** Nid yw'r diwygiad i Ddeddf 1990 a wneir gan adran 49 o Ddeddf 2015 yn gymwys i gais neu apêl a wneir i Weinidogion Cymru, neu gyfeiriad a wneir atynt, cyn 1 Mawrth 2016.

**17.**—(1) Nid yw'r diwygiadau a wneir gan y paragraffau hynny o Atodlen 5 i Ddeddf 2015 a restrir yn erthygl 4 yn gymwys i achosion a gychwynnir cyn 1 Mawrth 2016.

(2) At ddibenion paragraff (1) ystyr "a gychwynnir" ("*instituted*") yw—

(a) mewn perthynas ag adran 121 o Ddeddf Priffyrdd 1980, bod y cwestiwn o ba un a yw atal cydsyniad yn afresymol neu ba un a yw unrhyw ddarpariaeth yn rhesymol yn dod yn benderfyniad i Weinidogion Cymru;

(b) mewn perthynas ag adran 28F o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, bod apêl yn cyrraedd Gweinidogion Cymru;

(c) mewn perthynas ag adran 28L o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, y gwneir apêl o dan adran 28L(1);

(d) mewn perthynas ag Atodlen 15 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, y cyflwynir gorchymyn i Weinidogion Cymru i'w gadarnhau o dan baragraff 7 o'r Atodlen honno;

(e) mewn perthynas ag adran 175 o Ddeddf 1990, y rhoddir hysbysiad ysgrifenedig am apêl o dan adran 174 o Ddeddf 1990;

(f) mewn perthynas ag adran 196 o Ddeddf 1990, y cyflwynir hysbysiad am apêl o dan adran 195 o Ddeddf 1990;

(g) mewn perthynas ag adran 208 o Ddeddf 1990, y rhoddir neu yr anfonir hysbysiad ysgrifenedig am apêl;

(h) mewn perthynas ag adran 320 o Ddeddf 1990, y perir i ymchwiliad lleol gael ei gynnal;

(i) mewn perthynas ag achos y mae adran 322 o Ddeddf 1990 yn gymwys iddo neu a fyddai'n gymwys iddo ond am baragraff 13 o Atodlen 5 i Ddeddf 2015, y gwneir y cais neu'r cyfeiriad neu y rhoddir yr hysbysiad am apêl;

(j) mewn perthynas ag achos y mae adran 322A o Ddeddf 1990 yn gymwys iddo neu a fyddai'n gymwys iddo ond am baragraff 14 o Atodlen 5 i Ddeddf 2015, ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud trefniadau i wrandawiad neu ymchwiliad gael ei gynnal neu wneud trefniadau ar gyfer gwrandawiad

neu ymchwiliad yn unol ag adran 319B o Ddeddf 1990;

(k) mewn perthynas ag apêl o dan Ddeddf 1990 y mae Atodlen 6 i'r Ddeddf honno'n gymwys iddi, bod person penodedig yn penderfynu cynnal gwrandawiad neu ymchwiliad lleol neu y cyfarwyddir ef gan Weinidogion Cymru i gynnal ymchwiliad lleol;

(l) mewn perthynas ag Atodlen 8 i Ddeddf 1990, y gwneir cyfeiriad at y Comisiwn Ymchwiliad Cynllunio gan Weinidogion Cymru;

(m) mewn perthynas ag adran 41 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, y rhoddir hysbysiad am apêl o dan adran 39 o'r Ddeddf honno;

(n) mewn perthynas ag apêl o dan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 y mae Atodlen 3 i'r Ddeddf honno'n gymwys iddi, bod person penodedig yn penderfynu cynnal gwrandawiad neu ymchwiliad lleol neu y cyfarwyddir ef gan Weinidogion Cymru i gynnal ymchwiliad lleol;

(o) mewn perthynas ag adran 25 o Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990, y gwneir apêl o dan yr adran honno; a

(p) mewn perthynas ag apêl o dan Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 y mae'r Atodlen i'r Ddeddf honno'n gymwys iddi, bod person penodedig yn penderfynu cynnal gwrandawiad neu ymchwiliad lleol neu y cyfarwyddir ef gan Weinidogion Cymru i gynnal ymchwiliad lleol.

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, un o Weinidogion Cymru
27 Ionawr 2016